Teitl:	**Gweithiwr Cymdeithasol x2**
Lleoliad:	**Gweithio Ystwyth / Canolfan ViTCC ac Ysbyty Aneurin Bevan**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Swyddi Rhif:	**BG10590 a BG02723**
Cyflog:	**Gradd 8 (£36,298 – £40,478 y flwyddyn)**
Oriau:	**37**
Contract:	**Parhaol**

Crynodeb Swydd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dymuno recriwtio dau Weithiwr Cymdeithasol gyda chymhelliant uchel i ddod yn rhan o'n Tîm Adnoddau Cymunedol Integredig. Nod y tîm yw darparu gwasanaeth sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn sicrhau fod unigolion yn cyflawni eu deilliannau a llesiant personol.

Hysbyseb Lawn

Os ydych yn Weithiwr Cymdeithasol ymroddedig a chreadigol sy'n dymuno gwneud eich marc a datblygu eich gyrfa, gall hon yn rhwydd fod y swydd i chi.

Mae ein Tîm yn gefnogol, yn ysbrydoli ac yn ymdrechu i sicrhau annibyniaeth, dewis a'r deilliannau gorau posibl ar gyfer dinasyddion a theuluoedd Blaenau Gwent.

Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn wasanaeth ar y cyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent. Mae'r Tîm yn darparu help i oedolion (dros 18 oed), sy'n byw ym Mlaenau Gwent ac sydd angen cefnogaeth i aros yn annibynnol o fewn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r Tîm yn cynnig gwasanaeth gwell sy'n sicrhau bod unigolion yn derbyn yr ymyriad cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gan y gweithiwr proffesiynol cywir. Mae'n symleiddio'r broses drwy gydlynu anghenion iechyd a hefyd anghenion gofal cymdeithasol.

Prif ddiben y swydd yw gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd i gynyddu eu llesiant ac annibyniaeth i'r eithaf, wedi ei seilio ar arfer gorau, arweiniad a chymhwyster, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddwch yn ganolog wrth ddarparu a chefnogi darpariaeth weithredol integredig holl swyddogaethau'r Tîm Adnoddau Gwasanaethau o fewn Blaenau Gwent.

Mae'r prif ddyletswyddau yn cynnwys: -

- Cynnal asesiadau gwaith cymdeithasol
- Gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd i sicrhau'r llesiant ac annibyniaeth mwyaf posibl
- Darparu cynllunio gofal a rheoli gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd

Cymwysterau a sgiliau: -

- Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- Diploma/Gradd/Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol
- Profiad o weithio aml-ddisgyblaeth
- Gwybodaeth o'r ddeddfwriaeth/arweiniad a rheoliadau cyfredol yng nghyswllt Gwasanaethau Oedolion.

Mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **30/03/2023**
Dyddiad Cyfweliadau: **11/04/2023**